

NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

Y SULIAU NESAF

Rhagfyr 7:

Oedfa Ardal Groesfaen a Creigiau
Taflen a Sgrin: Dafydd Roberts

Rhagfyr 14:

Gwasanaeth Nadolig
Yr Ysgol Sul
Llywydd: Lowri Roberts
Taflen: Nia Williams;
Sgrin: Dafydd Roberts

Rhagfyr 21:

Gwasanaeth Nadolig
Y Twmiaid Bach
Llywydd: Heulyn Rees
Taflen: Glenys M. Roberts
Sgrin: Carwyn Lloyd-Jones

PARTI'R PLANT I DDILYN

Rhagfyr 28:

Emlyn Davies
Llywydd: Geraint Wyn Davies
Taflen a Sgrin: Emlyn Davies

CARDIAU NADOLIG

Dewis da ar werth gan Ann Rees

DILLAD PLANT

Daeth i sylw John Llewellyn
Thomas bod angen dybryd yn y
Gwasanaethau Cymdeithasol am
ddillad plant o bob oed, o fabis i blant
yn eu harddegau. Mae croeso i chi
adael dillad addas, mewn bagiau duon,
yn llofft y capel, a bydd y Gweithgor
Cyfiawnder Cymdeithasol yn sicrhau eu
bod yn cyrraedd y lle iawn.

MERCHED Y TABERNAACL

Dydd Mercher, Rhagfyr 3ydd
Canolfan Arddio Pugh's am 10:30 i
drafod rhaglen y flwyddyn nesaf.

HAMPERI NADOLIG

Cofiwch am yr hamperi Nadolig i
bobl ifanc sy'n sefydlu cartref am y tro
cyntaf yn yr ardal. Pethau 'bob dydd'
mewn tuniau neu bacedi sydd eu
hangen - dim byd rhy ffansi. Mae blwch
ar gael yn y tu blaen.

CETRIS INC

Rydym yn ail ddechrau casglu cetris inc
ar gyfer Cymorth Cristnogol. Croeso i
chi eu gadael yn y blwch yn y cyntedd,
ond DIM cetrys Epson. Diolch yn fawr.

YR AMLENNI BROWN

A ninnau'n prysur ddod at ddiwedd y
flwyddyn, cofiwch wneud ymdrech
arbennig i gyfrannu drwy'r amlenni
brown yn ystod y Suliau nesaf. Mae'r
arian yn mynd at bump elusen leol:
TRAVOL, Y Stafell Fyw, Hosbis
George Thomas, Clefyd y Galon, a
Rhaglen Trawsblannu Gwaed a Mêr
Ysbyty'r Waun. Rhowch yn hael os
gwelwch yn dda.

FFAIR NADOLIG

Yn dilyn gwasanaeth Nadolig y plant
ieuengaf ar fore Sul Rhagfyr 14
bydd Ffair Nadolig, mins peis a
diod Nadoligaidd yn Neuadd y
Pentref. Y nod yw codi arian i
elusennau'r capel. Os oes rhywun
yn awyddus i gael stondin,
cysylltwch â Lowri Roberts neu
Catrin Rees.
Hefyd mae yna apêl am stondin o
gacennau cartref, felly os medrwrch
gyfrannu at y stondin, llawer iawn o
ddiolch!

PROFEDIGAETH

Estynnwn ein cydymdeimlad didwyll i Glenys a Roy Davies,
"Ardwyn", Meisgyn, ar eu profedigaeth lem yn colli eu mab hynaf,
Carwyn John, mor frawychus o sydyn. Rydym yn meddwl am ei
ferch, Mari, sydd ond ychydig wythnosau oed, ac am Veronique,
gweddw Carwyn, ac yn eu cynnwys i gyd yn ein gweddïau.
Anfonwn ein cofion cynnes at ei frawd, Arwel, a'i deulu yntau.
Bydd yr angladd yma yn y Tabernacl ddydd Gwener nesaf, Rhagfyr
5ed am 1:30p.m., ac wedyn yn Amlogfa Llangrallo am 2.45p.m.